# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 6 Mawrth 2014 i'w hateb ar 11 Mawrth 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith toriadau cyllid ar y gwasanaeth iechyd yng ngogledd Cymru? OAQ(4)1546(FM)**W**

**2. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i liniaru effaith y dreth ystafell wely? OAQ(4)1550(FM)

**3. David Rees (Aberafan)**: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ysgogi twf economaidd yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)1547(FM)

**4. Elin Jones (Ceredigion)**: Beth yw polisi Llywodraeth Cymru o ran sicrhau gwasanaeth trên amlach o Aberystwyth? OAQ(4)1540(FM)**W**

**5. Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus? OAQ(4)1544(FM)

**6. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a wnaed yn ail adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf? OAQ(4)1543(FM)

**7. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllid GIG Cymru? OAQ(4)1535(FM)

**8. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am atgyfeiriadau gan feddygon teulu ar gyfer y rheini yr amheuir bod ganddynt ganser? OAQ(4)1538(FM)

**9. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Gylchffordd Cymru yng Nglyn Ebwy? OAQ(4)1542(FM)

**10. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am asesiad Llywodraeth Cymru o'r effaith y mae diwygio lles yn ei chael ar bobl Cymru? OAQ(4)1549(FM)

**11. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fynediad at ofal sylfaenol yng Nghymru? OAQ(4)1551(FM)

**12. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i adeiladu ar statws Cymru fel Cenedl Masnach Deg? OAQ(4)1539(FM)

**13. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran datblygu technoleg feddygol yn y gwasanaeth iechyd? OAQ(4)1545(FM)

**14. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad y panel annibynnol ar leoliad Canolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1548(FM)**W**

**15. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi twristiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1534(FM)